



Tystysgrif Her Sgiliau Genedlaethol/Sylfaen CA4 (Bagloriaeth Cymru) Adroddiad yr Uwch Gymedrolwyr Awst 2019

Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC:

<https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?l=cy>

Gweithdrefnau

Asesiad dan Reolaeth

Mae'r gyfres hon unwaith eto wedi amlygu bod angen atgoffa rhai canolfannau o'r gofynion i gynnal asesiad dan reolaeth ar gyfer cydrannau'r Dystysgrif Her Sgiliau.

- Rhaid i ganolfannau gyfeirio at y **Cod Ymarfer** cyn cynnal unrhyw asesiad.
- Rhaid cynnal y Dair Her dan **amodau rheoledig** fel y nodir yn y **Llawlyfr Cyflwyno CA4 Cenedlaethol/Sylfaen**.
- Rhaid atgoffa canolfannau bod rheolaethau penodol i **amser, adnoddau, goruchwyliaeth, cydweithio ac adborth** ar gyfer pob tasg o'r asesiad.
- Mae peidio â chadw at y rheolau penodol yn golygu **camymddwyn** a gallai canlyniadau'r canolfannau fod yn y fantol.
- Unwaith y bydd tasg yn dechrau ni ellir darparu **unrhyw** wersi nac arweiniad ar wahân i'r hyn a nodir yn y rheolaethau.
- Cyfrifoldeb y Ganolfan yw sicrhau bod gwaith yr ymgeiswyr yn cael ei gadw'n **ddiogel ac nad yw ymgeiswyr yn cael mynediad at eu gwaith** ar ôl cwblhau pob tasg.
- Unwaith y bydd y Project Unigol wedi'i gyflwyno i'w asesu, **ni ddylid** ei ddychwelyd at yr ymgeisydd i'w wella.

Cyflwyno Gwaith drwy ddull e-gyflwyno

Ar gyfer y gyfres hon, defnyddiwyd e-gyflwyno eto ar gyfer Her y Gymuned a'r Project Unigol, gydag ychydig iawn o faterion yn deillio o'r broses llwytho i fyny. Mae'n amlwg bod y mwyafrif o ganolfannau yn rheoli'r broses hon yn dda ac yn gallu bodloni'r dyddiad cau a bennwyd. Fel arfer, dogfen unigol fyddai'n cael ei llwytho i fyny ar gyfer y Project Unigol, ond gwelwyd rhai anghysondebau o hyd o ran nifer y dogfennau oedd yn cael eu llwytho i fyny ar gyfer Her y Gymuned. Atgoffir canolfannau i gyfeirio at y ddogfen **Cyflwyno Tystiolaeth yn Ddigidol** sydd ar gael yn yr adran **Gweinyddu** ar y wefan, lle mae'n nodi y dylid llwytho i fyny un ffolder zip ar gyfer Her y Gymuned sy'n cynnwys hyd at chwe dogfen ar gyfer pob ymgeisydd. Mewn rhai achosion, llwythwyd dros 80 o eitemau i fyny i ffolder dystiolaeth yr ymgeiswyr ar gyfer yr Her hon. Nid yw hyn yn dderbyniol a dylid rhoi sylw i hyn cyn cyflwyno gwaith yr ymgeiswyr.

Hoffem atgoffa canolfannau y bydd y llwyfan e-gyflwyno yn cael ei ddefnyddio o gyfres Ionawr 2020 ymlaen i gyflwyno **pob cydran** o'r Dystysgrif Her Sgiliau Genedlaethol/Sylfaen CA4.

Safoni a Chymedroli Mewnol

Mae'n hynod o bwysig bod proses safoni a chymedroli mewnol drylwyr ar waith yn y canolfannau. Eto yn y gyfres hon roedd sawl canolfan lle cymhwyswyd gwahanol addasiadau i'r marciau ar gyfer gwahanol gwahanol aseswyr o fewn canolfan. Nid oedd hyn yn unigryw i ganolfannau â llawer o aseswyr, ond roedd hefyd i'w weld mewn rhai canolfannau gyda dim ond dau neu dri aseswr. Os oes diffyg cysondeb yn amlwg ymhlith aseswyr mewn canolfan yng nghyfresi'r dyfodol, mae'n bosibl y gofynnir am dystiolaeth ar gyfer y garfan gyfan. Atgoffir canolfannau hefyd bod yn rhaid defnyddio blaenlythrennau cywir aseswr ar gyfer pob ymgeisydd a gyflwynir ar IAMIS. Nid oedd hyn bob amser yn cael ei ddilyn, ac roedd anghysondebau rhwng blaenlythrennau'r aseswr ar IAMIS o gymharu â'r rhai ar y Taflenni Asesu a ddarparwyd.

Gweinyddu

Rhaid anfon copi o bob Briff Her, sydd wedi'i gynnwys o fewn y sampl, gyda'r dystiolaeth er mwyn i'r cymedrolwr ddeall cyd-destun y gwaith. Mewn rhai achosion, nid oedd y briffiau a ddarparwyd yn cyfateb i'r tasgau a gwblhawyd, a rhaid i ganolfannau fynd i'r afael â hyn.

Rhaid atgoffa canolfannau y darperir llofnodion ymgeiswyr ar gyfer yr Heriau drwy lenwi'r daflen **Datganiad yr Ymgeisydd a'r Daflen Amser** ac mae'n rhaid eu cynnwys gyda'r gwaith. Rhaid i'r ymgeiswyr gynnwys dadansoddiad manwl o'r oriau ar gyfer yr holl dasgau a wnaed yn ystod yr Her honno. Nid oes angen cynnwys Taflen Amser ar gyfer y Project Unigol, gan fod llofnodion aseswyr ac ymgeiswyr yn cael eu cyflwyno ar y Daflen Asesu. Atgoffir canolfannau bod dogfennau asesu newydd ar gael erbyn hyn ar y Wefan Ddiogel i bob un o'r cydrannau, a rhaid eu defnyddio wrth gwblhau pob un o'r cydrannau o fis Medi 2019 ymlaen.

Project Unigol

Hon oedd y drydedd gyfres ar gyfer cyflwyno gwaith gan ddefnyddio'r dull e-gyflwyno, ac roedd yn broses effeithiol ar y cyfan. Lle cafodd y cymedrolwyr anawsterau wrth gael gafael ar y gwaith yn llawn, roedd y canolfannau yn ymateb ac yn barod i helpu i ddatrys problemau.

Sylwer nad yw'n ofynnol cynnwys Logiau Amser ar gyfer cydran y Project Unigol. Mae'n destun pryder os yw canolfannau'n cyfyngu cyfleoedd i ymgeiswyr drwy ddyrannu oriau penodol i'w cwblhau yn y Ganolfan, yn enwedig o ystyried pwysoliad y gydran o 50%. Gall y dysgwr gwblhau'r Project Unigol trwy ddefnyddio amser gwersi a'u hamser personol y tu allan i'r gwersi.

Daeth y Projectau Unigol mwyaf effeithiol o ganolfannau a roddodd annibyniaeth i'r ymgeiswyr ddewis testunau a oedd yn amlwg yn eu cymell i'w cwblhau. Mewn cyferbyniad, ni lwyddodd lleiafrif o ganolfannau i arwain ymgeiswyr i'r un graddau. Roedd rhai teitlau braidd yn uchelgeisiol ac yn anodd ymateb iddynt o fewn cyfyngiadau'r cyfrif geiriau a argymhellir yn y fanyleb.

Mae rhai canolfannau yn annog ymgeiswyr i gwblhau arteffactau, gan roi cyfle amlwg i'r dysgwyr nad oeddent yn hyderus o ran eu sgiliau ysgrifennu 'traethawd' ffurfiol, ennill marciau ar y grid asesu.

Roedd gwaith asesu'r Project Unigol yn y canolfannau yn well yn gyffredinol yn y gyfres hon. Fodd bynnag, roedd rhai canolfannau yn anghyson yn eu dyfarniadau rhwng aseswyr, ac felly'n dangos bod angen sicrhau bod arferion safoni cadarn ar waith mewn canolfannau.

Deilliant Dysgu 1

Nodi ffocws a chwmpas Project Unigol

Ar y cyfan, roedd y cyflwyniadau wedi'u hysgrifennu'n dda, ac roeddent yn caniatáu i ymgeiswyr osod cyd-destun a phwrpas y Project Unigol. Roedd tystiolaeth o welliant yn safon ysgrifennu'r nodau ac amcanion – roedd yr ymgeiswyr ar y cyfan yn defnyddio'r berfau cywir i nodi sut y byddent yn cwblhau eu Project Unigol. Fodd bynnag, roedd hyn yn anghyson ar draws canolfannau ac roedd rhai ymgeiswyr yn dal i sôn am ddulliau ymchwil neu'n rhestru nifer helaeth o dasgau. Roedd hyn yn aml yn golygu bod ymgeiswyr yn cael eu hasesu'n hael ar gyfer yr agwedd hon.

Mae'r nodau a'r amcanion yn rhan annatod o'r Project Unigol, ac fel arfer, llwyddiant i lunio'r rhain sy'n arwain at lwyddiant y Project yn gyffredinol. Cynghorir felly y dylai'r canolfannau dreulio peth amser yn dysgu ac addysgu'r Deilliant Dysgu hwn – atgoffir canolfannau i gyfeirio at y Llawlyfr Cyflwyno sydd ar gael gan CBAC er mwyn eu helpu i ysgrifennu nodau ac amcanion.

Deilliant Dysgu 2

Dethol a chynllunio dulliau, adnoddau a deunyddiau ymchwil

Yn ogystal, bu gwelliant pellach wrth gwblhau'r rhesymegau yn y gyfres hon, ac roedd hyn yn rhoi'r cyfle i'r ymgeiswyr allu esbonio sut roeddent yn bwriadu cyflawni eu hamcanion drwy gyfeirio at y dulliau ymchwil o'u dewis. Roedd rhesymegau gwannach yn cyfeirio'n gyffredinol at y 'rhyngwrdd' fel ffynhonnell eilaidd. Mewn cyferbyniad, roedd rhesymegau mwy effeithiol yn esbonio'n fanwl pam y dewiswyd ffynonellau penodol a sut y byddai'r wybodaeth yr oedden nhw wedi'i gaffael yn cyflawni eu nodau/amcanion.

Defnyddiodd rhai o'r ymgeiswyr y Deilliant Dysgu hwn fel ffordd effeithiol o ystyried hygyrddedd ffynonellau, a atgyfnerthodd eu rhesymeg ymhellach.

Deilliant Dysgu 3

Dethol, coladu, cyfeirio ac asesu hygyrddedd gwybodaeth a data rhifyddol

Roedd ymgeiswyr yn gallu dewis amrywiaeth eang o ffynonellau i'w cynnwys yn eu Projectau Unigol, yr oedd rhai ohonynt yn gymhleth ac yn gynhwysfawr, gan alluogi'r ymgeiswyr i lunio rhai darnau gwaith soffistigedig. Nid oedd y sgiliau cyfeirio bob amser yn effeithiol, ac roedd hyn yn ei gwneud hi'n anodd i'r cymedrolwyr ganfod o ble y daeth y wybodaeth. Byddem yn gwerthfawrogi pe gallai'r canolfannau atgoffa'r ymgeiswyr o bwysigrwydd dyfynnu eu ffynonellau, er mwyn gallu dyfarnu marciau priodol iddynt am gynnwys eu ffynonellau. Yn ogystal, mae nodi ffynonellau yn helpu i gael gwared ar unrhyw ymholiadau posibl mewn perthynas â llên-ladrad.

Yn yr un modd, dylid cynnwys llyfryddiaeth, er mwyn i'r cymedrolwr allu nodi'r math a'r amrywiaeth o ffynonellau a ddefnyddiwyd wrth gwblhau'r Project Unigol.

O ran gwybodaeth gynradd, yn nodweddiadol, dewisodd ymgeiswyr i ddefnyddio holiaduron. Rhaid i ganolfannau sicrhau bod yr holiaduron yn cael eu gwirio cyn iddynt gael eu dosbarthu ymhlith y cyhoedd. Ystyriwyd bod rhai cwestiynau yn fusneslyd, gan eu bod yn ymwneud â phynciau sensitif, fel erthyliad a cham-drin rhywiol. Mewn rhai achosion roedd enwau'r ymatebwyr wedi eu cynnwys hefyd, sydd â goblygiadau o ran diogelu data. Dylai ymgeiswyr ystyried yr agweddau moesegol ar ymchwil cynradd.

Rhaid i ymgeiswyr hefyd sicrhau bod y cwestiynau maent yn eu gofyn yn berthnasol i deitl eu Project Unigol, gan nad oedd rhai cwestiynau weithiau yn berthnasol.

Deilliant Dysgu 4

Dadansoddi'r data rhifyddol a'u harddangos gan ddefnyddio technegau digidol

Mae angen i ymgeiswyr sicrhau y bydd eu testunau/teitlau yn rhoi cyfle iddynt ddangos sgiliau rhifedd priodol.

Er bod ymgeiswyr wedi gwneud ymdrech i ddadansoddi'r data a gawsant o ffynonellau eilaidd fel siartiau a ffeithluniau, roedd eu dyfarniadau yn aml yn sylfaenol. Roedd hyn hefyd yn wir am y data cynradd, lle roedd ymgeiswyr wedi rhoi rhai sylwadau sylfaenol ar ganfyddiadau eu holiadur. Mae angen i ymgeiswyr ystyried perthnasedd y cwestiynau y maent yn eu gofyn er mwyn cyrraedd y nodau/amcanion y maent eu hangen.

Er mwyn i ymgeiswyr gyrraedd Band 3 ac i fyny, mae angen iddynt ddangos lefel uwch o ddadansoddi eu canfyddiadau ac, yn ddelfrydol, ceisio cysylltu eu canfyddiadau cynradd ac eilaidd er mwyn dangos sgiliau mwy cymhleth.

Yn ogystal, mae angen i'r ymgeiswyr arddangos eu canfyddiadau yn fwy gofalus. Nid oedd y siartiau a ddewiswyd gan yr ymgeiswyr bob amser yn addas i'r pwrpas ac yn aml, nid oedd teitlau ar y graffiau ac nid oeddent wedi'u labelu'n briodol.

Cynhwysodd lleiafrif o'r canolfannau eu holl waith dadansoddi data yn yr atodiad i'w Projectau Unigol. Yn ôl pob tebyg, strategaeth oedd hon i fynd dros y terfyn geiriau a ganiatawyd. Rhaid cofio bod dadansoddi data yn rhan annatod o'r Project Unigol ac felly rhaid cynnwys y gwaith yn y prif ran a'i gyfosod yn effeithiol â gwaith ymchwil. Fel arall, gallai'r ymgeiswyr golli marciau. Mae perygl y bydd yr ymgeiswyr yn colli marciau sylweddol os caiff gwybodaeth hanfodol ei 'hychwanegu' fel rhan o'r atodiad.

Deilliant Dysgu 5

Cyfosod, dadansoddi a defnyddio gwybodaeth a safbwyntiau

Cyflwynodd nifer cynyddol o ganolfannau samplau yn cynnwys sgrinluniau o ffynonellau, gyda'r ymgeiswyr yn eu hadolygu'n wrthrychol. Roedd hyn yn creu arddull 'llafurus' i'r Project Unigol ac nid oedd yn caniatáu i ymgeiswyr ddatblygu sgiliau ysgrifennu ffurfiol a oedd yn addas i ofynion y Project Unigol. Ni argymhellir y dull hwn, gan nad yw'n caniatáu i ymgeiswyr gyfosod a 'chfuno' eu canfyddiadau yn llwyddiannus. Nid yw'r dull hwn chwaith yn paratoi ymgeiswyr ar gyfer astudio yn y dyfodol, gan nad yw'n nodweddiadol o ysgrifennu academaidd. Dylai ymgeiswyr ddilyn dulliau cyfeirio traddodiadol, naill ai trwy ddefnyddio technegau cyfeirio Harvard neu droednodiadau.

Roedd lleiafrif o'r ymgeiswyr wedi cynnwys darnau o waith yn yr atodiad a byddai wedi bod yn well eu cynnwys ym mhrif ran y gwaith er mwyn cynnig tystiolaeth bellach o'r sgîl o 'gyfosod' (tynnu gwaith ymchwil a gwybodaeth ynghyd er mwyn llunio un Project Unigol cydlynol). Er y gall glynu wrth y terfyn geiriau fod yn her, mae angen i ymgeiswyr fod yn ddetholus o ran y cynnwys yn y Project Unigol a sicrhau nad ydynt yn cael eu temtio i roi gormod yn yr atodiad. Dylai'r atodiad gynnwys: un holiadur, unrhyw waith sy'n dangos dadansoddiad data, a'r hunanwerthusiad, ac ni ddylai gynnwys adrannau cyfan sy'n canolbwyntio ar ganfyddiadau cynradd/eilaidd.

Roedd yr ymgeiswyr yn gallu dangos lefel dda o wybodaeth a dealltwriaeth, hyd yn oed ar y lefelau is. Gellir priodoli hyn i'r ffaith bod yr ymgeiswyr yn gyffredinol wedi gallu dewis pynciau sydd o ddiddordeb iddynt.

Ceisiodd yr ymgeiswyr a gyflwynodd arteffactau ddangos tystiolaeth o'r broses o ddatblygu eu syniad, er y gallai hyn fod wedi bod yn fwy manwl er mwyn dangos sut mae syniadau cychwynnol yn datblygu i fod yn ganlyniad (y daith).

Yn gyffredinol, roedd y canolfannau'n sicr yn eu hasesiad o'r Deilliant Dysgu hwn.

Deilliant Dysgu 6

Llunio a chyflwyno deilliant

Defnyddiodd ymgeiswyr rai sgiliau a thechnegau perthnasol i gyflwyno eu hymchwil mewn fformat priodol, ac roedd y gwaith yn gyffredinol wedi ei drefnu a'i gyflwyno'n dda.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu arddangos amrywiaeth o sgiliau sylfaenol drwy gydol y broses o gwblhau eu Projectau Unigol, gan gyflwyno deilliant terfynol a oedd yn mynd i'r afael â nodau'r Project yn bennaf. Roedd yr ymgeiswyr yn hyderus yn eu sgiliau Llythrennedd Digidol wrth ddefnyddio meddalwedd i greu eu Projectau Unigol.

Roedd hi'n amlwg bod ymgeiswyr llai medrus, a gyflwynodd Projectau Unigol ysgrifenedig, wedi cael trafferth bodloni gofynion y meini prawf o ran cyfleu ystyr a mynegi safbwyntiau. Gallai canolfannau ystyried annog ymgeiswyr lefel is i gwblhau arteffactau. Mae'n bosibl y byddai'r ymgeiswyr yn ystyried y fformat hwnnw'n fwy hygyrch.

Deilliant Dysgu 7

Llunio barn a dod i gasgliadau

Cyflwynodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr sylwadau yn seiliedig ar dystiolaeth mewn perthynas â'u canfyddiadau ar gyfer pob amcan. Roedd yr ymgeiswyr mwy medrus yn gallu darparu sylwadau gwerthusol, yn hytrach na disgrifio'r hyn a ganfuwyd drwy gydol pob nod/amcan.

Roedd lleiafrif o ymgeiswyr wedi cynnwys hunanwerthusiadau yn yr adran hon. Rhaid cofio bod y Deilliant Dysgu hwn yn asesu gallu'r ymgeiswyr i grynhoi'r pwyntiau allweddol y maent wedi eu darganfod trwy gydol y Project Unigol.

Roedd ymgeiswyr yn aml yn gallu sicrhau marciau yn seiliedig ar y penderfyniadau roeddent wedi eu gwneud trwy gydol y Project Unigol yn gyffredinol.

Deilliant Dysgu 8

Gwerthuso hunan berfformiad wrth reoli Project Unigol

Roedd y Deilliant Dysgu hwn yn parhau i fod yn gryfder i ganolfannau yn y gyfres hon, gydag ymgeiswyr yn llwyddo i gyrraedd Band 4 gydag arsylwadau craff ar eu perfformiad. Roedd yr ymgeiswyr wedi mynd ati'n effeithiol i ystyried y saith sgil a gaiff eu datblygu drwy'r cymhwyster Tystysgrif Her Sgiliau, ac wedi eu hystyried yng nghyd-destun y Project Unigol (Llythrennedd, Rhifedd, Llythrennedd Digidol, Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau, Cynllunio a Threfnu, Creadigrwydd ac Arloesi ac Effeithiolrwydd Personol).

Weithiau, roedd yr ymgeiswyr yn tueddu i ddisgrifio'r ffynonellau a ddefnyddiwyd drwy gydol y Project Unigol yn hytrach na gwerthuso'r broses o ymchwilio a chymhwyso sgil meddwl yn feirniadol wrth ddewis ffynonellau priodol.

Her Menter a Chyflogadwyedd

Mae'r Her Menter a Chyflogadwyedd yn parhau i ddarparu amrywiaeth o gyfleoedd i ymgeiswyr ddatblygu sgiliau a phriodoleddau mentrus. Mae ymgeiswyr yn parhau i ddangos brwdfrydedd ac ymgysylltiad mawr, yn enwedig pan fo cyfleoedd sydd wedi'u cynllunio'n dda a briffiau diddorol.

Deilliant Dysgu 1

Gallu cymhwyso Creadigrwydd ac Arloesi

Mae'r Deilliant Dysgu hwn yn annog ymgeiswyr i gynhyrchu tystiolaeth lle dangoswyd creadigrwydd ac arloesi. Mae angen i ymgeiswyr gynhyrchu mwy nag un syniad cychwynnol ar gyfer cysyniad menter fel grŵp. Lle mae hyn wedi'i weithredu'n effeithiol, mae ymgeiswyr wedi trafod nifer o wahanol syniadau a fyddai'n eu galluogi i fodloni anghenion y briff a ddewiswyd. Mae'r mapio syniadau hyn yn cael ei ategu gan ddadansoddiad manwl o gryfderau a gwendidau pob syniad posib a realistig. Mae dadansoddiad o'r cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau (SWOT) yn gadael i ymgeiswyr fynd ymlaen gyda rhai syniadau a gwrthod eraill.

Anogir ymgeiswyr i ddangos syniadau gwreiddiol wrth ddewis, datblygu a gweithredu syniad. Dylid addasu neu ddatblygu cynhyrchion neu wasanaethau presennol i apelio at y gynulleidfa darged, yn unol â'r briff a ddewiswyd. Mae'r broses o ddatblygu'r syniad a ddewiswyd yn faes lle mae llawer o ymgeiswyr yn methu dangos y broses yn effeithiol. Lle mae hyn wedi'i wneud yn llwyddiannus, mae ymgeiswyr wedi darparu diagramau, prototeipiau a fersiynau gwahanol o'r syniad terfynol.

Mae myfyrio ar y broses sy'n gysylltiedig â datblygu cysyniad newydd yn parhau i fod yn faes i'w wella. Lle mae hyn wedi'i wneud yn llwyddiannus, mae ymgeiswyr wedi gwerthuso'r broses ac wedi ystyried datblygiad eu sgiliau Creadigrwydd ac Arloesi yn hytrach na rhoi disgrifiad o'r Her.

Deilliant Dysgu 2

Deall Effeithiolrwydd Personol

Mae'r Deilliant Dysgu hwn yn parhau i fod yn gryfder, gan alluogi ymgeiswyr i gynhyrchu tystiolaeth wrth ddangos eu Heffeithiolrwydd Personol. Mae ymgeiswyr yn nodi eu sgiliau trwy gwblhau archwiliad sgiliau. O edrych ar y dadansoddiad hwn, mae angen i ymgeiswyr nodi'r sgiliau personol a'r sgiliau tîm sy'n gryfderau, a chynllunio ar gyfer meysydd i'w gwella. Dangosodd llawer o ymgeiswyr sgiliau personol, sgiliau tîm a chynllun gwella yn y gyfres hon drwy ddefnyddio canlyniadau eu harchwiliadau sgiliau yn effeithiol.

Mae ffurflenni cais yn parhau i gael eu cyflwyno fel tystiolaeth o arddangos sgiliau. Fodd bynnag, gall ffurflenni cais gyfyngu ymgeiswyr wrth drafod eu sgiliau. Mae hyn i'w weld yn arbennig o amlwg lle nad yw ffurflenni cais yn darparu cwestiynau i arddangos sgiliau, neu lle mae cwestiynau cyfyngedig. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae ymgeiswyr yn cwblhau llythyr cais i ddangos sgiliau personol. Mae'r ymgeiswyr sy'n gwneud hyn yn dda yn rhoi enghreifftiau manwl o adegau pan maen nhw wedi dangos sgiliau personol a sgiliau tîm mewn sefyllfaoedd go iawn. Mae llythyrau cais yn galluogi ymgeiswyr i amlinellu sgiliau yn fanylach.

Dangosodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr berfformiad o'i rôl a'i gyfrifoldebau ei hun, gan gynnwys rheoli amser ac ymddygiad priodol trwy gofnodion cyfarfodydd. Mae cofnodion yn cael eu defnyddio'n fwy aml i ddangos cynnydd o fewn y tîm a rôl benodol. Mae hyn yn galluogi ymgeiswyr i ennill marciau uwch, yn arbennig wrth eu defnyddio yn rhan o broses adolygu.

Mae llawer o ymgeiswyr yn cyflwyno myfyrdodau yn seiliedig ar ddatblygiad a chymhwysiad sgiliau personol a sgiliau tîm drwy gydol yr Her. Rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod y rhain yn parhau i fod yn ganolbwynt i'w myfyrdodau yn hytrach na chyflwyno naratif o'u profiad Her.

Deilliant Dysgu 3

Deall y ffactorau sy'n gysylltiedig â Her Menter a Chyflogadwyedd

Mae'r Deilliant Dysgu hwn yn parhau i wella gyda phob cyfres gyda'r rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth glir o'r ffactorau sy'n gysylltiedig â datblygu cynnig busnes. Mae'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol i hysbysebu yn cynyddu, gyda llawer o ymgeiswyr yn dangos sgiliau digidol da. Mae ymgeiswyr, yn enwedig y rhai yn y band marciau uwch, yn dangos tystiolaeth fanwl i gefnogi'r 5 P yn eu cynnig. Mae llawer yn cefnogi penderfyniadau â gwaith ymchwil cynradd ac eilaidd, sy'n galluogi ymgeiswyr i roi cyfiawnhad dilys dros y syniad o'u dewis. Mae canolfannau'n mynd i'r afael â'r amrywiaeth o friffiau sydd ar gael, ac mae hyn gan amlaf yn rhoi ffocws clir a marchnad darged i ymgeiswyr.

Mae ymgeiswyr yn cyflwyno gwahanol arddulliau a dulliau i'r Arddangosfa Weledol sy'n annog Creadigrwydd ac Arloesi. Mae'r rhan fwyaf o ymgeiswyr yn cyflwyno Arddangosfeydd Gweledol sydd wedi'u strwythuro'n dda a'u datblygu'n greadigol, ac sy'n ymgysylltu â'u cynulleidfia. Mae tystiolaeth ymgeiswyr a'u Datganiadau Dilys yn dangos brwdfrydedd ac ymgysylltiad â'r briff a ddewiswyd. Mae'r sylwadau manwl gan aseswyr ar y Datganiadau Dilys yn cefnogi ymgeiswyr ymhellach ac yn cyfiawnhau'r marciau a ddyfarnwyd am sgiliau cyfathrebu.

Her Dinasyddiaeth Fyd-eang

Mae ymgeiswyr yn cael cyfleoedd da i feithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o faterion byd-eang. Mae dewis da o faterion byd-eang yn parhau i fod yn y canolfannau, gyda llawer o ganolfannau'n defnyddio mwy nag un Briff Her i apelio at eu dysgwyr. Mae'r Pecynnau Adnoddau a gyflwynir yn aml yn cael eu gwahaniaethu mewn ymateb i anghenion dysgwyr ac mae hyn yn arfer da i'w hannog. Gall templedi fod yn briodol i ymgeiswyr a fydd yn ennill marciau yn y bandiau is. Fodd bynnag, atgoffir canolfannau y bydd defnyddio templedi sy'n rhy benodedig a chwestiynau arweiniol yn cyfyngu ar allu'r ymgeisydd i gyrraedd y marciau yn y bandiau uchaf.

Gall y Pecynnau Adnoddau eu hunain ddangos tystiolaeth o brosesau'r ymgeiswyr i Feddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau. Er bod y rhan fwyaf o ganolfannau yn cynnwys y Pecyn Adnoddau yng ngwaith yr ymgeiswyr, lle nad yw wedi'i gyflwyno, mae ymgeiswyr mewn perygl o fod dan anfantais o ran ennill y marciau uwch.

Mae'r gyfres hon wedi gweld amrywiaeth yn ansawdd y Pecynnau Adnoddau a gyflwynwyd. Atgoffir canolfannau y dylid defnyddio pedair ffynhonnell yn y Pecyn Adnoddau, gan gynnwys ffynonellau ysgrifenedig, data rhifyddol yn ogystal â llun.

Dylid annog ymgeiswyr hefyd i ddefnyddio eu dwy ffynhonnell eu hunain i ddatblygu barnau, safbwyntiau a dadleuon eraill. Mae canllawiau ar yr hyn i'w ystyried wrth ddewis deunydd ar gyfer y Pecyn Adnoddau i'w gweld yn y Llawlyfr Cyflwyno ar dudalen 23.

Yn unol â'r gofynion newydd, mae llawer o ymgeiswyr wedi llwyddo i lynu wrth y cyfrif geiriau o 800 o eiriau ar gyfer eu Safbwynt Personol yn ystod y gyfres hon. Mae'r sgîl o ddadansoddi a chyfosod gwybodaeth mewn modd cryno yn sgîl Band 4 ac mae tystiolaeth addawol bod hyn yn llwyddiannus.

Cyflwynwyd ystod amrywiol o ganlyniadau creadigol yn y gyfres hon, yn amrywio o bosteri a thaflenni i grysau T, casys ffôn a siacedi llachar. Mae nifer bach o ganolfannau yn parhau i or-asesu datblygiad syniad terfynol yr ymgeiswyr, ac atgoffir canolfannau bod angen dangos sawl cam o'r datblygiad creadigol wrth ddod o hyd i'r canlyniad terfynol.

Atgoffir canolfannau bod Rheolau Tasg 1 yn dweud na ddylai ymgeiswyr gael mynediad i'r Rhynggrwyd. Mewn nifer bach o ganolfannau, mae ymgeiswyr yn dangos defnydd clir o gopïo a gludo, lle nad yw aseswyr mewnol wedi adnabod hyn. Ni ellir rhoi marciau i ymgeiswyr am waith nad ydynt wedi ei gwblhau eu hunain.

Deilliant Dysgu 1

Gallu cymhwyso Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau

Yn gyffredinol, mae ymgeiswyr yn dangos ymgysylltiad cymeradwy â'r Pecynnau Adnoddau a'r materion byd-eang a astudiwyd. Mae llawer o ymgeiswyr yn dangos y gallu i Feddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau trwy amrywiol ddulliau e.e. RURU, COP, PESTLE neu PRESTLE ac amlygu ffynonellau. Os yw ymgeiswyr yn amlygu rhywbeth, byddai cynnwys allwedd yn ddefnyddiol i'r broses gymedroli er mwyn dangos dealltwriaeth a pha mor berthnasol yw'r wybodaeth a gafwyd. Mae bron pob canolfan yn cynnwys tystiolaeth bod trafodaeth ddosbarth wedi'i chynnal. Mae hyn yn ddefnyddiol i gynorthwyo'r ymgeiswyr i ddatblygu a deall safbwyntiau a barnau amgen.

Mae'r rhan fwyaf o ymgeiswyr yn dangos y gallu i ysgrifennu Safbwyntiau Personol manwl a gwnaed gwelliant sylweddol yn y maes hwn. Mae'r ymgeiswyr mwyaf effeithiol yn gallu defnyddio'r gwerthusiad beirniadol o'r deunydd ffynhonnell, yn cynnwys eu hanodiadau a'r wybodaeth a ddysgwyd wrth amlygu ffactorau, a'u trosglwyddo i'r Safbwynt Personol. I gyrraedd marciau Band 4, rhaid i ymgeiswyr ddangos synthesis o'u sgiliau Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau, gyda deunydd o'r Pecyn Adnoddau yn cael ei drin yn hyderus yn y Safbwynt Personol. Mae hyn yn cynnwys tystiolaeth o'r trafodaethau dosbarth, gan fod hyn weithiau'n cael ei anghofio.

Mae rhai canolfannau'n gor-asesu Safbwyntiau Personol. Er mwyn bod yn gwbl effeithiol, rhaid i Safbwyntiau Personol gyfeirio at y deunydd ffynhonnell yn fanwl a'r ffactorau PESTLE perthnasol, yn ogystal ag ystyried hygredd y ffynonellau a ddefnyddiwyd, gan gyfuno'r wybodaeth hon â'r Safbwynt Personol.

Mae myfyrion dros y broses Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau yn parhau i fod yn faes i'w ddatblygu ymhellach i lawer o ganolfannau. Mae'r myfyrdod yn cyfrannu nifer sylweddol o farciau at y Deilliant Dysgu ac felly ni ddylid ei anghofio. Dylid annog ymgeiswyr i ystyried faint maen nhw'n defnyddio a datblygu eu sgiliau Datrys Problemau a Meddwl yn Feirniadol, yn hytrach na rhoi disgrifiad ac adroddiad o'r tasgau a wnaed.

Deilliant Dysgu 2

Gallu cymhwyso Creadigrwydd ac Arloesi

Mae'r rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu creu syniadau addas a realistig ar gyfer codi ymwybyddiaeth. Bu gwelliant yn y gyfres hon yn nealltwriaeth y ganolfan a'r ymgeisydd o'r angen i greu syniadau realistig a dichonadwy y gellir eu rhoi ar waith. Cafwyd enghreifftiau ardderchog o weoedd a mapiau cysyniadau, sy'n amlygu cryfderau a gwendidau sylfaenol gwahanol ddulliau. Fodd bynnag, rhaid i ganolfannau sicrhau bod ymgeiswyr yn ystyried cryfderau a gwendidau yn fanwl ac yn drylwyr, er mwyn ennill marciau yn y band uwch.

Roedd gwaith llawer o ymgeiswyr yn dangos sawl cam datblygu wrth gyrraedd eu canlyniad terfynol. Roedd hyn yn cynnwys ymchwil marchnata ar gynnyrch tebyg a phresennol, byrddau naws, ystyried delwedd a lliw ac ati. Gwnaed defnydd effeithiol o'r adborth gan gymheiriaid hefyd ac roedd yr ymgeiswyr wedi gweithredu'r adborth mewn drafft dilynol neu gynllun terfynol. Fodd bynnag, mae tueddiad o hyd i or-asesu datblygiad gwaith yr ymgeiswyr ac atgoffir canolfannau bod yn rhaid cael tystiolaeth o sawl cam datblygu trylwyr er mwyn ennill marciau yn y bandiau uchaf.

Ar y cyfan, mae'r myfyrdodau ar y broses sy'n gysylltiedig â datblygu canlyniad codi ymwybyddiaeth o ansawdd gwell na'r myfyrdodau ar y broses Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau. Mae mwy o dystiolaeth o ymgeiswyr yn gallu myfyrio ar y prosesau sy'n gysylltiedig â datblygu eu canlyniad terfynol. Mae'r ymgeiswyr sydd wedi gwneud hyn yn effeithiol ac yn fanwl wedi defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd drwy adborth gan gymheiriaid, yn ogystal â thrwy sawl cam datblygu, i ystyried yr hyn a weithiodd yn dda, sut a pham y gwnaethant wella eu dyluniad, yn ogystal ag unrhyw newidiadau pellach y gallent eu gwneud.

Deilliant Dysgu 3

Deall y materion sy'n gysylltiedig â Her Dinasyddiaeth Fyd-eang

Mae'n ymddangos bod mwyafrif y canolfannau yn fwyaf hyderus wrth asesu'r Deilliant Dysgu hwn ar gyfer yr Her Dinasyddiaeth Fyd-eang. Roedd yr elfen hon yn gryf ar y cyfan ac roedd ymgeiswyr yn gallu dangos eu dealltwriaeth a'u hymateb i faterion byd-eang drwy'r safbwyntiau a'r barnau a gynigiwyd yn y Safbwynt Personol. Roedd yr ymgeiswyr mwyaf effeithiol yn gallu dadansoddi a chyfod eu dealltwriaeth o'r ffynonellau, gan gynnwys y dadansoddiad PESTLE, yn eu Safbwyntiau Personol. Mae'r gallu i gyfod gwybodaeth o'r ffynonellau a'u cyfuno'n effeithiol â Safbwyntiau Personol yn sgil Band 4. Bydd marciau ar gyfer y Deilliant Dysgu hwn yn fwy cyfyngedig lle mae ymgeiswyr wedi amlygu ac anodi ffynonellau gyda PESTLE ond heb lwyddo i drosglwyddo'r wybodaeth hon i'w Safbwynt Personol.

Mae llawer o ymgeiswyr hefyd yn dangos eu dealltwriaeth o'r mater byd-eang drwy'r hyn y maent wedi'i gynnwys yn eu canlyniadau codi ymwybyddiaeth. Mae hyn yn amrywio o destun ar faneri, i logos a llinellau tag ar gasys ffonau symudol, i ddefnyddio lluniau addas ar grysau T. Atgoffir canolfannau y dylid annog ymgeiswyr i ganolbwyntio ar un dull o godi ymwybyddiaeth yn unig. Os yw ymgeiswyr yn dewis mwy nag un dull, mae perygl iddynt wanhau ansawdd y datblygiad o'i gymharu â'r hyn y gallent ei ddangos o ddefnyddio un dull yn unig. Yn ogystal â hyn, os yw ymgeiswyr yn copïo a gludo llawer iawn o destunau neu ffeithluniau oddi ar y we, atgoffir canolfannau nad yw'r ymgeisydd felly'n dangos dealltwriaeth fanwl nac effeithiol.

Nid oedd nifer bach o ganolfannau wedi cynnwys canlyniadau codi ymwybyddiaeth terfynol yr ymgeiswyr, a lle'r oedd sgrinluniau wedi'u cynnwys, roeddent weithiau o ansawdd gwael ac yn annarllenadwy. Rhaid i ganolfannau sicrhau bod dystiolaeth glir o ganlyniadau'n cael eu darparu er mwyn cyfiawnhau'r marciau a ddyfarnwyd.

Her y Gymuned

Roedd dystiolaeth glir yn y gyfres hon bod llawer o ganolfannau yn gallu cynnig gweithgareddau pwrpasol a gwerthfawr sy'n cynnig digon o gyfleoedd i'r ymgeiswyr ddangos yr annibyniaeth a'r cyfrifoldeb sydd eu hangen er mwyn cyrraedd y bandiau uchaf. O ganlyniad, cyflwynodd nifer o ganolfannau dystiolaeth yn dangos bod ymgeiswyr wedi ymgysylltu'n llawn â'r Her ac yn gallu cwblhau pob un o'r tasgau angenrheidiol i gyflwyno'r dystiolaeth briodol ar gyfer pob Deiliant Dysgu.

Fel y nodir eisoes, mae cynllunio gan y ganolfan yn allweddol i sicrhau y bydd Her y Gymuned yn llwyddiant. Dewisodd y rhan fwyaf o ganolfannau friffiau addas. Ond weithiau, wrth eu gweithredu, ni roddwyd digon o gyfleoedd i'r ymgeiswyr gynhyrchu'r dystiolaeth angenrheidiol ar gyfer pob un o'r Deilliannau Dysgu. Pan fo'r agwedd 'gwneud' yn annigonol, naill ai o ran amser neu gymhlethdod, mae'n llesteirio gallu'r ymgeiswyr i gyflwyno gwaith cynllunio manwl ac effeithiol yn arbennig. Atgoffir canolfannau y bydd cyfleoedd gwirfoddoli cyffredinol yn llesteirio gallu'r ymgeiswyr i gyrraedd y bandiau uchaf onid oes cyfle i ddangos digon o annibyniaeth a chyfrifoldeb sy'n galluogi iddynt ymgymryd â gwaith cynllunio a threfnu.

Dewisodd y rhan fwyaf o ganolfannau ymgymryd â'r Her fel tasg tîm gan wneud hynny'n llwyddiannus. Rhaid i nifer bach o ganolfannau newid maint y tîm yn y dyfodol gan fod y fanyleb yn nodi 3 i 6 o aelodau. Hefyd, atgoffir canolfannau er bod y gweithgaredd ei hun yn cael ei gynnal fel tîm, bod y rhan fwyaf o'r dystiolaeth yn cael ei chwblhau'n unigol. Ac eithrio rhai o gydrannau tasg 2 (e.e. cyfleoedd a risgiau, adnoddau, cynlluniau gwersi, cynlluniau gweithredu fel grŵp), rhaid sicrhau bod elfen o unigoliaeth yn y dystiolaeth a gyflwynir gan fod yn 'rhaid i'r ymgeiswyr ddarparu ymateb unigol fel rhan o ganlyniad unrhyw dasg' (tudalen 33 o'r fanyleb).

Gwelwyd yr asesiad mwyaf manwl gywir gan ganolfannau pan gymhwyswyd pob un o feini prawf y Deilliannau Dysgu yn glir i'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan yr ymgeiswyr. Atgoffir canolfannau mai dim ond y dystiolaeth a gyflwynir gan ymgeiswyr y gellir ei hystyried i'w hasesu.

Deiliant Dysgu 1 Gallu cymhwyso Cynllunio a Threfnu

Dechreuodd y gwaith mwyaf llwyddiannus gyda briff clir a phenodol a oedd yn caniatáu i'r ymgeiswyr gyflwyno nodau ac amcanion priodol a realistig a oedd yn berthnasol i'r gwaith a oedd yn cael ei wneud. Cyflwynodd yr ymgeiswyr cryfaf gynllunio a oedd yn amlwg yn gysylltiedig â'r hyn yr oeddent yn bwriadu ei wneud yn ystod yr agwedd 'gwneud' o'r Her yn hytrach na chanolbwyntio ar y paratoi yn unig. Roedd hyn yn caniatáu cynllunio mwy manwl ac effeithiol ac yn galluogi ymgeiswyr i ennill marciau yn y band uwch.

Lle'r oedd cynllunio wedi'i gwblhau'n wael, roedd ymgeiswyr yn tueddu i ganolbwyntio ar y gwaith paratoi gan ystyried yr hyn yr oeddent yn bwriadu ei wneud yn ystod y gweithgaredd ei hun mewn modd annigonol iawn. Atgoffir canolfannau bod yn rhaid i'r gwaith cynllunio a threfnu ganolbwyntio ar sut mae'r ymgeiswyr yn bwriadu cyflawni'r gweithgaredd a ddewiswyd ganddynt yn hytrach na chasglu tystiolaeth ar gyfer eu Cofnod Digidol Personol (PDR). Pan nad oedd ffocws clir yn y briff, neu pan nad oedd y gweithgaredd yn cynnig digon o gyfrifoldeb, nid oedd ymgeiswyr yn gallu dangos cynllunio manwl ac roedd hyn yn cyfyngu'r marciau oedd ar gael.

Cafwyd enghreifftiau da iawn o gynlluniau gwersi mewn briffiau Hyfforddi. Roedd ymgeiswyr yn gallu dangos tystiolaeth glir ar gyfer monitro a datblygiad, gan eu bod yn adolygu cynlluniau rhwng darnau gwaith os gofynnwyd iddynt ailadrodd sesiynau mwy nag unwaith, neu adlewyrchu ac addasu syniadau wrth addysgu dros gyfnod hir o amser. Gwelwyd peth tystiolaeth dda hefyd o ran Briffiau Gwella Cymdogaeth, gyda rhai ymgeiswyr yn cyflwyno gwaith cynllunio manwl ac effeithiol am eu bwriad i wella eu hardaloedd dewisedig, yn ogystal â defnyddio ffotograffau wedi'u hanodi cyn, yn ystod ac ar ôl y gwaith fel tystiolaeth eu bod wedi gweithredu'r cynllun. Anogir canolfannau i edrych ar y briffiau Her diwygiedig sy'n amlinellu'r amser y gellir ei ddyrannu i wahanol weithgareddau, yn enwedig ar gyfer y briffiau Lles Cymdeithasol. Pan weithredwyd y rhain yn anghywir nid oedd yr ymgeiswyr yn gallu cynllunio'n ddigon manwl i ennill marciau yn y band uwch.

Roedd yr ymgeiswyr mwyaf llwyddiannus yn dangos ystyriaeth o'r amrywiaeth o enghreifftiau o gynnwys a restrir yn y fanyleb (tudalen 28) fel gosod targedau, adnoddau gofynnol a risgiau, cynlluniau gweithredu tîm ac unigol, ond roedd hyn yn anghyson ar draws y canolfannau. Atgoffir canolfannau nad yw'n ofynnol i'r ymgeiswyr esbonio pob un o'r elfennau gan fod dealltwriaeth i'w gweld drwy'r defnydd a wneir ohonynt yn ystod y broses gynllunio.

Fel rhan o'r gwaith cynllunio a threfnu, rhaid i ymgeiswyr ddarparu manylion digonol yn y cynlluniau gweithredu a ddarperir gan rannu cyfrifoldebau'n glir wrth weithio fel tîm. Mae rhai ymgeiswyr yn parhau i ddefnyddio gosodiadau generig fel "ymarfer driliau" neu "gwneud gweithgaredd" yn eu cynllun gweithredu. Nid yw hyn yn ddigonol i gyrraedd y bandiau uchaf. Yn yr un modd, nid yw ailadrodd yr un gosodiad trwy gydol y cynllun gweithredu yn dangos tystiolaeth o gynllunio manwl ac effeithiol a dylid ei farcio yn unol â hynny.

Roedd y defnydd o dempledi safonol i'r diwydiant wedi'i wneud yn llwyddiannus gan y rhan fwyaf o ganolfannau, gydag ymgeiswyr yn eu defnyddio'n addas fel rhan o'u proses gynllunio. Y templedi mwyaf cyffredin oedd y rhai oedd yn cael eu defnyddio ar gyfer asesiadau risg, cynlluniau gwersi, cynlluniau gweithredu a dadansoddiad SWOT.

Mae rhai canolfannau yn parhau i roi strwythur anhyblyg neu lyfr gwaith i ymgeiswyr; Er bod tystiolaeth yn dangos bod y rhain yn cael eu defnyddio'n effeithiol i helpu dysgwyr Band 1, atgoffir canolfannau unwaith eto bod darparu gormod o strwythur a thempledi gyda chwestiynau arweiniol yn cyfyngu ar allu'r ymgeisydd i gyrraedd y marciau yn y bandiau uchaf. Mae hyn oherwydd eu bod yn cyfyngu ar ymateb y dysgwyr a gall hyn arwain at waith sy'n rhy debyg ymysg ymgeiswyr. Roedd hyn, unwaith eto, yn broblem yn ystod y gyfres hon.

Gwelwyd tystiolaeth dda o fonitro a datblygu trwy Gofnodion Cyfranogi manwl lle byddai ymgeiswyr yn cyfeirio at y cryfderau a'r gwelliannau a wnaed wrth iddynt roi eu cynllun ar waith fel rhan o'u cofnod gweithgarwch.

Roedd yr ymgeiswyr mwyaf galluog wedi cyfeirio'n glir at y broses gynllunio yn eu myfyrdodau, gan ddangos pam roedd eu gwaith cynllunio yn llwyddiannus neu pa feysydd y gallent eu gwella. Roedd nifer o ymgeiswyr yn disgrifio'r gweithgaredd yn hytrach na chyflwyno sylwadau gwerthusol ar y broses gynllunio ei hun, ac fe anogir canolfannau i fynd i'r afael â hyn.

Deilliant Dysgu 2

Deall Effeithiolrwydd Personol

Roedd pob ymgeisydd wedi cynnal archwiliad sgiliau gan ddefnyddio un o sawl ffurf ond atgoffir canolfannau bod angen dadansoddi'r sgiliau a nodwyd er mwyn cyrraedd y marciau uchaf. Nid yw cyflwyno archwiliad a gynhyrchwyd gan gyfrifiadur yn unig yn ddigonol.

Byddai'r ymgeiswyr cryfaf yn cynnwys enghreifftiau penodol o'r modd y maent wedi cymhwyso sgiliau amrywiol yn y gorffennol i ddangos canlyniadau'r archwiliad, yn ogystal â dangos ystyriaeth o'r modd y mae'r sgiliau'n berthnasol i'w gweithgaredd Cymuned ddewisol. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr llwyddiannus wedi cynnwys cynllun clir ar gyfer gwella, gan ganolbwyntio ar sut y gellid eu datblygu yn ystod agwedd "gwneud" yr Her. Roedd hyn hefyd yn rhoi ffocws clir i'r ymgeiswyr wrth iddynt fyfyrio ar eu sgiliau yn dilyn y gweithgaredd ei hun.

Roedd y rheini â Chofnod Cyfranogi manwl, lle roeddent wedi dogfennu'r ffordd y rhoddwyd eu cynllun ar waith yn glir, yn gallu dangos eu bod yn perfformio eu rôl a'u cyfrifoldebau eu hunain yn effeithiol yn ystod y gweithgaredd, gan iddynt gynnwys sylwebaeth a/neu werthusiadau o'r hyn a gwnaethant yn ystod yr oriau yn y Gymuned.

Unwaith eto, mae'r myfyrdod ar gyfer y Deilliant Dysgu hwn yn dueddol o fod yn gryfach na DD1. Wrth ddefnyddio enghreifftiau i esbonio a chyfiawnhau'r ffordd yr oeddent yn rhoi sgiliau ar waith a'u datblygu, cyrhaeddodd ymgeiswyr y bandiau uchaf. Roedd myfyrdodau disgrifiadol, lle'r oedd ymgeiswyr yn adnabod y sgiliau yn unig yn tueddu i fod yn gyfyngedig neu'n sylfaenol. Mewn rhai achosion, roedd ymatebion ymgeiswyr yn dal i fod yn gyfyngedig oherwydd y cwestiynau arweiniol a ddarparwyd gan y Ganolfan ac mewn rhai sefyllfaoedd, mae canolfannau wedi rhwystro ymatebion ymgeiswyr drwy ddarparu templed strwythuredig lle disgwylir iddynt gwblhau'r myfyrdod.

Deilliant Dysgu 3

Gallu cymryd rhan yn Her y Gymuned.

Pan ddarparwyd briff wedi'i ddiffinio'n fanwl, roedd ymgeiswyr yn gallu dangos eu bod wedi ystyried pwrpas a budd y gweithgaredd, fel arfer ar ffurf cyflwyniad i'r Cofnod Digidol Personol. Byddai'r rhai sy'n cyrraedd y marciau uwch yn nodi pwrpas a budd y gweithgaredd o ran eu cymuned ddewisol. Mewn lleiafrif o achosion, roedd hyn yn rhy gyffredinol ymysg ymgeiswyr, ac atgoffir canolfannau y dylid cwblhau hyn yn unigol.

Atgoffir canolfannau bod yr Her yn gofyn am ddigon o oriau yn ymgymryd ag agwedd 'gwneud' yr her drwy weithio gyda'r gymuned neu yn y gymuned. Er bod nifer sylweddol o ymgeiswyr wedi bodloni'r gofyniad gan ymgymryd â gweithgareddau pwrpasol a gwerthfawr, roedd tystiolaeth i'r gwrthwyneb mewn rhai achosion. Yn ogystal â llesteirio'r dysgwyr yn Neilliant Dysgu 3, mae methu â chynnig cyfle i ymgymryd â'r oriau angenrheidiol hefyd yn cael effaith andwyol ar y gwaith cynllunio a threfnu, ac ar eu gallu i arddangos perfformiad effeithlon ac effeithiol.

Darparwyd datganiad cadarnhau gan y mwyafrif helaeth o ganolfannau. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o achosion, nid oedd wedi'i gwblhau'n gywir. Atgoffir canolfannau mai dim ond y datganiad sy'n adlewyrchu cyfranogiad yr ymgeisydd orau yn ystod agwedd 'wneud' yr Her y dylid ei ddewis. Mae sylwadau ychwanegol yn ymwneud â chyfranogiad yr ymgeisydd yn ddefnyddiol at ddibenion cymedroli er mwyn deall y marciau a ddyfarnwyd yn well. Fodd bynnag, dylai'r sylwadau hyn fod yn berthnasol i'r ymgeisydd unigol gan gyfeirio at gyfranogiad yn y gweithgaredd ei hun yn hytrach na'r broses o gasglu tystiolaeth neu'r gwaith paratoadol.

Mae'r Cofnod Cyfranogi yn elfen allweddol o'r Adolygiad o Ddatblygiad Personol gan ei fod yn ffynhonnell o dystiolaeth ar gyfer bob un o'r Deilliannau Dysgu. Unwaith eto, gwelwyd gwelliant yn yr elfen hon ar gyfer y gyfres hon gyda'r ymgeiswyr yn dogfennu rhoi eu cynllun ar waith yn glir ac yn cadw cofnod o'r hyn a wnaethant yn bersonol yn ystod agwedd 'gwneud' yr Her. Gwnaed hyn gan ddefnyddio ffotograffau wedi'u trefnu a'u hanodi yn unigol ynghyd â dyddiaduron digidol, fideos personol, cyfweiliadau a blogiau. Atgoffir canolfannau unwaith eto y dylai'r cofnod cyfranogi gael ei gasglu ynghyd gan yr ymgeisydd ac nad yw ffotograffau a fideos generig yn ddigonol.

Fel rhan o'r Her, mae'n ofynnol i'r ymgeiswyr arddangos sgiliau llythrennedd digidol wrth iddynt ddatblygu eu PDR mewn modd creadigol. Pan fydd y ganolfan yn darparu gormod o strwythur, ni all yr ymgeiswyr gyrraedd y bandiau uwch gan na allant ddangos sgiliau trefnu, storio a rheoli effeithiol yn y ffordd y gwnaethant gasglu eu tystiolaeth ynghyd yn unigol. Gwelwyd rhai Cofnodion Digidol Personol (PDR) o safon uchel iawn yn ystod y gyfres hon, gydag ymgeiswyr yn cyflwyno gwaith strwythuredig yn dangos tystiolaeth o drefnu a rheoli, drwy gasglu'r tasgau amrywiol at ei gilydd i greu portffolio trefnus o dystiolaeth yn defnyddio hypergysylltiadau neu ddelweddau wedi'u hymgorffori.

Unwaith eto, atgoffir canolfannau nad yw'n ofynnol cynnwys tystiolaeth o waith trefnu a storio ar ffurf sgrinluniau sy'n dangos bod yr ymgeiswyr wedi arbed neu wedi amgryptio ffeiliau fel rhan o'r Deiliant Dysgu hwn.